**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

26 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

**Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru**

Diolch am eich llythyr ynghylch dogfennau Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Trafodwyd y llythyr yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth.

Trafodwyd sut y gellid gwella'r dogfennau dan sylw a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol y Gweinidog, gan gynnwys:

**Anfon dogfennau mewn digon o bryd**

Fel y gwyddoch, prin iawn yw'r amser sydd ar gael i graffu ar y Gyllideb Ddrafft. Rydym yn teimlo bod yr amserlenni tyn yn ei gwneud yn anodd cynnal asesiad ystyrlon o effaith y Gyllideb Ddrafft ar y meysydd polisi o fewn ein cylch gwaith, sef llywodraeth leol a thai. Mae toriad y Nadolig yn cyfyngu ymhellach ar ein gallu i graffu'n effeithiol ac yn drylwyr ar y Gyllideb Ddrafft. Eleni, roedd yn anoddach fyth oherwydd y ffaith na chawsom dystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y Gyllideb Ddrafft tan yn hwyr ar 22 Rhagfyr, dros wythnos ar ôl y gofynnwyd amdani'n wreiddiol, gan adael dim ond un diwrnod gwaith i swyddogion ystyried y papur cyn i'r Senedd gau dros y Nadolig. Gan fod amserlen y gwaith craffu eisoes yn gyfyngedig, mae'n rhwystredig nad yw tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog ar gael yr un pryd ag y caiff y Gyllideb Ddrafft ei chyhoeddi.

Credwn fod yr amser a oedd ar gael i graffu ar y Gyllideb Ddrafft yn ystod y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn annigonol a bod y broses wedi bod yn rhy frysiog. Mae dau faes polisi sylweddol o fewn ein cylch gwaith, ac er mwyn craffu'n effeithiol ar y Gyllideb Ddrafft a'r Setliad Llywodraeth Leol, mae'n hanfodol cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at y ddwy sesiwn graffu gyda'r Gweinidogion perthnasol. O fewn yr amserlen fer hon,

mae angen inni hefyd drefnu amser i ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law a drafftio a thrafod adroddiad. Eleni, nid oeddem yn gallu cyhoeddi'r fersiwn Saesneg o'n hadroddiad ar y Gyllideb Ddrafft tan yn hwyr yn y prynhawn ar ddiwrnod y dyddiad cau; ni chyhoeddwyd y fersiwn Gymraeg tan fore'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Mae hyn yn tanlinellu pa mor anodd y gall fod i gwblhau'r gwaith craffu erbyn y dyddiad cau. Mae hyn hefyd yn codi amheuon ynghylch i ba raddau y gall Aelodau o'r Senedd, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ystyried adroddiadau'r pwyllgorau'n ystyrlon cyn y ddadl.

**Ansawdd a defnyddioldeb y dogfennau**

Rydym yn credu bod lle i'r dogfennau'n ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog fod yn fwy eglur a thryloyw. Rydym wedi cael trafferth canfod rhai o effeithiau'r Gyllideb Ddrafft ac wedi dibynnu ar ein hymchwilwyr i ddod o hyd i'r meysydd hynny lle'r oedd toriadau i gyllidebau. Er enghraifft, nid oedd yn glir yn nogfennau'r Gyllideb Ddrafft y bu gostyngiad mewn termau real mewn rhai cyllidebau nad oeddent wedi newid. Er bod dyraniad y Grant Cymorth Tai yn dal yn £166.8 miliwn yn nhermau arian parod, mewn gwirionedd, mae hynny'n ostyngiad mewn termau real o ystyried effeithiau chwyddiant. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn y ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth yn y Gyllideb Ddrafft, yn enwedig o gofio na fydd cyllidebau'n mynd mor bell o ystyried effeithiau chwyddiant.

Yn yr un modd, gofynnwn i Lywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw pan fydd yn rhaid ail-flaenoriaethu cyllid. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw mewn perthynas â goblygiadau ei phenderfyniadau, drwy egluro lle mae cyllid wedi'i ddyrannu i gamau gweithredu mewn meysydd eraill, y rhesymau dros wneud hynny, a chanlyniadau ail-flaenoriaethu.

Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod dogfennau'r Gyllideb Ddrafft a'r dystiolaeth ysgrifenedig berthnasol yn eglur ac yn gyson wrth gyfeirio at ddyraniadau'r gyllideb. Mae ein hymchwilwyr yn aml yn gweld anghysondeb yn y ffigurau a ddefnyddir mewn papurau gwahanol yn ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft, yn enwedig pa fo'r pwyslais ar gyllid llywodraeth leol. Yn ogystal â'r dogfennau safonol yn ymwneud â'r Gyllideb a'r papur gan y Gweinidog, caiff dogfen yn egluro setliad cyllid llywodraeth leol ei chyhoeddi ddiwrnod ar ôl y Gyllideb Ddrafft. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu deall a dadansoddi'r wybodaeth a gyflwynir inni er mwyn medru craffu'n effeithiol arni.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.